



**CRONFA BENSIWN
POWYS
PENSION FUND**

Polisi Adrodd am Dorri Rheolau

Mehefin 2025

Hanes y Polisi

Dyddiad y Polisi	Crynodeb o'r newid	Cyswllt	Fersiwn/ Dyddiad Gweithredu	Dyddiad Adolygu
Mawrth 2019	Cyhoeddi'r fersiwn gychwynnol	Cronfa Bensiwn	1	Chwefror 2025
Mehefin 2025	Adolygiad yn unol â Chod Ymarfer Cyffredinol newydd y Rheoleiddiwr	Cronfa Bensiwn	2	Mai 2028

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas ag adrodd am dorri'r gyfraith i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, gan unigolion sy'n ymwneud â gwasanaeth gweinyddu Cronfa Bensiwn Powys, sef y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy' cael ei reoli a'i weinyddu gan Gyngor Sir Powys.
- 1.2 Mae'r polisi hwn wedi'i ysgrifennu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â [Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau](#) ac mae'n sicrhau bod Cronfa Bensiwn Powys yn dilyn arferion gorau wrth gofnodi ac adrodd am dorri'r gyfraith.
- 1.3 Gall torri'r Gyfraith ddigwydd mewn perthynas ag amrywiaeth eang o dasgau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r cynllun, megis:
 - Cadw Cofnodion
 - Gweithdrefnau a rheolaethau mewnol
 - Cyfrifo a thalu buddion
 - Talu cyfraniadau
 - Cyfathrebu ag Aelodau
 - Gwneud buddsoddiadau neu benderfyniadau sy'n gysylltiedig â buddsoddi
 - Terfynau amser cyfreithiol
- 1.4 Mae'r ddogfen bolisi a gweithdrefn hon yn berthnasol, yn bennaf, i'r canlynol:
 - Pob aelod o Fwrdd Pensiwn Powys;
 - Pob Swyddog sy'n ymwneud â rheoli Cronfa Bensiwn Powys, gan gynnwys aelodau o'r timau Gweinyddu Pensiynau a Chyllid, Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 y Cyngor;

- Unrhyw ddarparwyr gwasanaethau a chynghorwyr i'r Gronfa gan gynnwys; Actwari'r Gronfa, archwilwyr, cynghorwyr cyfreithiol a rheolwyr cronfeydd a;
- Swyddogion Cyflogwyr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Powys sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

1.5 Rhaid adolygu a chyhoeddi'r ddogfen yn dilyn unrhyw newid sylweddol sy'n berthnasol i'r polisi, ond o leiaf bob 3 blynedd.

2. Gofynion

2.1 Mae'r adran hon yn egluro cwrdd llawn y gofynion cyfreithiol ac i bwy y maent yn berthnasol.

2.2 Nid oes angen adrodd am bob toriad i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, dim ond y rhai lle mae'n debygol y bydd arwyddocâd perthnasol, ond dylid cofnodi a chadw pob toriad i gyfeirio ato yn y dyfodol.

2.3 Deddf Pensiynau 2004

Mae Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 (y Ddeddf) yn gosod gofyniad ar y personau canlynol:

- (a) ymddiriedolwr neu reolwr cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol;
- (b) aelod o fwrdd pensiwn cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus;
- (c) person sydd fel arall yn ymwneud â gweinyddu cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol;
- (d) y cyflogwr mewn perthynas â chynllun pensiwn galwedigaethol;
- (e) cynghorydd proffesiynol mewn perthynas â chynllun o'r fath;
- (f) person sydd fel arall yn ymwneud â chynghori ymddiriedolwyr neu reolwyr cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol mewn perthynas â'r cynllun.

Lle mae gan y person achos rhesymol i gredu;

- (a) na chydymffurfir â dyletswydd sy'n berthnasol i weinyddiaeth y cynllun dan sylw, ac a osodir gan neu yn rhinwedd deddfiad neu reol gyfraith, ac
- (b) os yw'r methiant i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, rhaid iddo roi adroddiad ysgrifenedig o'r mater i'r Rheoleiddiwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

2.4 Mae'r Ddeddf yn nodi y gall person fod yn destun cosb sifil os yw'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn heb esgus rhesymol. Mae'r ddyletswydd i

roi gwybod am dorri rheolau o dan y Ddeddf yn drech na unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod gan yr unigolion a restrir uchod. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd i roi gwybod yn diystyru 'braint gyfreithiol'. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, nad oes rhaid datgelu unrhyw gyfathrebu rhwng cynghorydd cyfreithiol proffesiynol a'u cleient, neu berson sy'n cynrychioli eu cleient, mewn cysylltiad â chyngor cyfreithiol a roddir i'r cleient.

2.5 Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau

Mae canllawiau ymarferol mewn perthynas â'r gofyniad cyfreithiol hwn wedi'u cynnwys yng Nghod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, gan gynnwys yn y meysydd canlynol:

- gweithredu gweithdrefnau digonol
- barnu a oes rhaid adrodd am dorri rheolau
- cyflwyno adroddiad i'r Rheoleiddiwr Pensiynau
- diogelu rhag chwythu'r chwiban a chyfrinachedd

2.6 Cais Gweithdrefnol ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys

2.7 Datblygwyd y weithdrefn hon i adlewyrchu'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau ac mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Bwrdd Pensiwn Powys yn ymdrechu i gyflawni arfer gorau trwy ddefnyddio gweithdrefn ffurfiol ar gyfer cofnodi ac adrodd am dorri rheolau.

2.8 Darperir hyfforddiant ar adrodd am dorri rheolau a dyletswyddau statudol cysylltiedig, a defnydd y weithdrefn hon i aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, aelodau'r Bwrdd Pensiynau a swyddogion allweddol sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa Bensiwn yn rheolaidd.

3. Y Weithdrefn ar gyfer Adrodd am Dorri Rheolau

3.1 Dylai unrhyw un sydd â chyfrifoldeb i roi gwybod am dorri'r gyfraith yn ystod eu cysylltiad â'r Cynllun fod yn ymwybodol o'r potensial y bydd torri'r gyfraith yn digwydd, a chael gweithdrefnau wedi'u sefydlu'n briodol ar waith i'w galluogi i werthuso unrhyw doriadau posibl a'r angen i'w hadrodd.

Mae'r rheolwr y cynllun yn cadw 'cofrestr o dorri'r gyfraith' lle mae'n rhaid cofnodi pob toriad, p'un a ydynt wedi cael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ai peidio. Mae'r gofrestr hon ar gael i bob person cyfrifol ac mae'n eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau.

3.2 Efallai y bydd angen i unigolion gyfeirio at reoliadau a chanllawiau wrth ystyried a ddylent roi gwybod am doriad posibl ai peidio. Dangosir rhai o'r darpariaethau allweddol isod:

- Adran 70(1) a 70(2) o Ddeddf Pensiynau 2004:
www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/35/contents
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996:
www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/18/contents
- Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013 (Rheoliadau Datgelu):
www.legislation.gov.uk/uksi/2013/2734/contents/made
- Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013:
www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/25/contents
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (amrywiol):
<http://www.lgpsregs.org/timelineregs/Default.html> (cynlluniau cyn 2014)
<http://www.lgpsregs.org/index.php/regs-legislation> (cynllun 2014)
- Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau:
<https://www.thepensionsregulator.gov.uk/-/media/thepensionsregulator/files/import/pdf/general-code-of-practice.ashx>

Yn benodol, dylai unigolion gyfeirio at yr adran ar 'Adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau'.

3.3 Penderfynu a yw'r toriad yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol


Er mwyn penderfynu a yw toriad yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol, dylid ystyried y canlynol:

- Achos y toriad (beth a achosodd iddo ddigwydd);
- Effaith y toriad (canlyniad(au) y toriad);
- Ymateb i'r toriad; a
- Goblygiadau ehangach y toriad.

Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yn Atodiad A.

3.4 Er mwyn helpu i asesu arwyddocâd perthnasol toriad, dylid dilyn y system Goleuadau Traffig a nodir yn Atodiad B a dogfennu'r broses yn briodol i gefnogi'r achos.

3.5 Gellir dangos y broses ar gyfer penderfynu a yw toriad wedi digwydd ac a yw'n sylweddol arwyddocaol (ac yn adroddadwy) gan ddefnyddio'r goeden benderfyniadau isod:



3.6 Delio ag achosion cymhleth

Dylid cyfeirio achosion cymhleth at Reolwr y Gronfa Bensiwn i'w hystyried a'u harwain. Gall gwybodaeth fod ar gael hefyd gan Fwrdd Cyngori'r Cynllun neu Ysgrifenyddiaeth y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol yn <http://www.lgpsregs.org>. Os yw'r amserlenni'n caniatáu, gellir cael cyngor proffesiynol a chaiff yr achos ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiwn.

3.7 Amserlenni ar gyfer adrodd

Os oes angen adrodd am doriad, mae Deddf Pensiynau a Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau yn ei gwneud yn ofynnol i wneud adroddiad ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gall unrhyw oedi wrth adrodd am y toriad gynyddu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag ef.

3.8 Adrodd am doriadau difrifol iawn

Mewn achosion o doriadau difrifol posibl sydd â chanlyniadau eithafol, y cyflymaf y dylai'r adroddwr wneud y gwiriadau angenrheidiol. Mewn achosion o anonestrwydd posibl, dylai'r adroddwr osgoi, lle bo modd, gwiriadau a allai rybuddio'r rhai sydd wedi'u cynnwys. Mewn achosion difrifol iawn, dylai adroddwyr ddefnyddio'r dulliau cyflymaf posibl i rybuddio'r rheoleiddiwr pensiynau am y torri rheolau.

3.9 Cofnodi Torri Rheolau

Bydd Cronfa Bensiwn Powys yn cadw cofnod o bob tor cyfraith, p'un a ydynt yn adroddadwy i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ai peidio. Cynhelir a thrafodir y cofnod Toriadau cyfraith hwn ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiynau. Bydd hefyd yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi, neu'n amlach, os oes angen.

3.10 Gofynion am Dorri'r Gyfraith

Dylai adroddwyr wneud adroddiad gan ddefnyddio ffurflen we ar-lein, e-bost, neu gyfeiriad post y Rheoleiddiwr Pensiynau. Ni dderbynnir adroddiadau dros y ffôn fel arfer. Os bydd adroddwr yn darganfod toriad cyfraith brys sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol a niweidiol ar aelodau'r cynllun, dylent ein hysbysu dros y ffôn cyn cyflwyno eu hadroddiad yn ysgrifenedig. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am adrodd am dorri'r gyfraith, yn cynnwys y corff llywodraethu, sefydlu a gweithredu gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Ni ddylai adroddwyr ddibynnu ac aros i bobl eraill adrodd.

Rhaid gwneud adroddiadau am dorri'r gyfraith yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai hyn fod o fewn 10 diwrnod gwaith i'r toriad gael ei nodi. Fodd bynnag, gall adroddwyr ddefnyddio eu barn a chymhwyso 'rhesymol ymarferol' i'w hamgylchiadau eu hunain. Ystyriwch ffactorau fel difrifoldeb y toriad posibl a'i ganlyniadau. Pan fydd adroddwyr yn penderfynu bod amser adrodd hirach yn rhesymol, dylent gofnodi'r rhesymau dros hyn ac unrhyw dystiolaeth rhag ofn y bydd angen iddynt ddangos hyn yn y dyfodol.

Dylai'r adroddiad gynnwys y canlynol:

- enw llawn y cynllun (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Sir Powys)
- disgrifiad o'r toriad neu'r toriadau, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau perthnasol

- enw'r cyflogwr (yn achos cynllun galwedigaethol) neu reolwr y cynllun (yn achos cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a phersonol)
- enw, swydd a manylion cyswllt yr adroddwr
- rôl yr adroddwr yn y cynllun
- reswm pam mae'r adroddwr yn credu bod y toriad o arwyddocâd perthnasol i ni
- cyfeiriad y cynllun
- math o gynllun – boed yn alwedigaethol (budd-daliadau diffiniedig, cyfraniad diffiniedig, neu hybrid), personol neu wasanaeth cyhoeddus
- enw a manylion cyswllt y corff llywodraethu (os yw'n wahanol i gyfeiriad y cynllun)
- rhif cofrestru cynllun pensiwn os yw'n hysbys
- cyfeiriad y cyflogwr

Dylid darparu rhagor o wybodaeth lle bynnag y bo modd gan gynnwys, er enghraifft:

- Y rheswm pam y credir bod y toriad o arwyddocâd perthnasol;
- Cyfeiriad y Cynllun;
- Manylion cyswllt Rheolwr y Cynllun
- A yw'r pryder wedi'i adrodd o'r blaen.

Os ystyrir bod y mater o bryder yn arbennig o ddifrifol, gellir cysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau dros y ffôn ar 0870 6063636, cyn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig.

Cyfrinachedd

Os gofynnir amdano, bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn gwneud ei orau i ddiogelu hunaniaeth unigolyn sydd wedi rhoi gwybod am dorri'r gyfraith ac ni fydd yn datgelu gwybodaeth oni bai ei bod yn ofynnol iddo wneud hynny'n gyfreithiol.

Gall gweithiwr hefyd gael amddiffyniad o dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 os ydynt yn gwneud adroddiad yn ddidwyll mewn perthynas â'u cyflogwr.

3.11 Methu ag adrodd am dorri'r gyfraith

Mae methiant gan unrhyw berson i gydymffurfio â'u rhwymedigaeth i adrodd am dorri'r gyfraith i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn 'drosedd sifil' oni bai y gellir rhoi 'esgus rhesymol'.

I benderfynu a oes gan adroddwr esgus rhesymol dros beidio ag adrodd am dorri'r gyfraith, neu adrodd am dorri'r gyfraith yn hwyrach nag y byddai disgwyl, gall y Rheoleiddiwr Pensiynau ystyried y canlynol:

- Y ddeddfwriaeth, y gyfraith achosion a'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau;
- Rôl yr adroddwr mewn perthynas â'r Cynllun;
- Yr hyfforddiant a ddarparwyd i'r adroddwr a'r lefel o wybodaeth y gellid disgwyl yn rhesymol i'r adroddwr ei chael;
- Y gweithdrefnau a roddwyd ar waith i nodi a gwerthuso torri rheolau ac a yw'r gweithdrefnau hynny wedi'u dilyn;
- Difrifoldeb y torri rheolau ac a ddylid bod wedi adrodd ar y torri rheolau ar unwaith ai peidio;
- Unrhyw resymau a roddir dros oedi yn yr adroddiad;
- Unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r achos dan sylw.

Os yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn ystyried rhoi cosb sifil, anfonir hysbysiad rhybuddio at y parti neu'r partïon yr effeithir arnynt sy'n nodi'r toriad honedig. Yn ogystal â hyn, gall y Rheoleiddiwr Pensiynau ystyried ei bod yn briodol gwneud cwyn i'r corff proffesiynol ar gyfer adrodd neu gorff llywodraethu arall.

4. **Adrodd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn**

Bydd adroddiad i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cael ei chyflwyno bob chwarter yn nodi'r canlynol:

- pob toriad, gan gynnwys y rhai a adroddwyd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r rhai na adroddwyd amdanynt, gyda'r dyddiadau cysylltiedig.
- mewn perthynas â phob toriad, manylion pa gamau a gymerwyd a chanlyniad unrhyw gamau (lle nad ydynt yn gyfrinachol)
- unrhyw gamau yn y dyfodol i atal y toriad dan sylw rhag cael ei ailadrodd
- toriadau newydd sydd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol.

Bydd y Gofrestr Torri Rheolau hefyd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Gronfa.

5. **Manylion Cyswllt**

- 5.1 Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am adrodd am dorri rheolau neu'r weithdrefn hon, cysylltwch â:

Chris Hurst – Rheolwr y Gronfa Bensiwn

E-bost: chris.hurst@powys.gov.uk
Ffôn: 01597 827640

Megan Price – Rheolwr Gweinyddu Pensiynau
E-bost: megan.price@powys.gov.uk
Ffôn: 01597 827642

Penderfynu a yw toriad yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol

Gellir ystyried beth sydd o arwyddocâd perthnasol o bedwar agwedd:

1. Achos – anonestrwydd, llywodraethu neu weinyddiaeth wael, cyngor gwael, gweithredu (neu fethu â gweithredu) yn fwriadol yn groes i'r gyfraith;
2. Effaith – mae'n ymddangos bod y mater yn effaith o beidio â chydymffurfio â Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gweinyddiaeth wael, taliadau anghywir neu ladradd;
3. Ymateb i'r toriad – os na chymerwyd camau prydlon ac effeithiol i ddelio â'r toriad ac i nodi a mynd i'r afael â'r achosion er mwyn lleihau'r risg o ailddigwyddiad;
4. Goblygiadau ehangach – os yw'r toriad yn awgrymu problemau ehangach heb eu canfod.

Fel y nodir yn adran 3 o'r brif ddogfen, er mwyn gallu ystyried yr agweddau hyn, bydd angen i bawb sydd â gofyniad cyfreithiol i adrodd am dorri'r gyfraith sicrhau bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o gyfraith a rheoliadau pensiwn sy'n llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Wrth lunio barn ynghylch a yw'r toriad o arwyddocâd perthnasol ai peidio, bydd angen i adroddwyr ystyried toriadau eraill y maent yn ymwybodol ohonynt ond bod yn ofalus i sicrhau nad yw unrhyw doriadau o'r fath eisoes wedi cael sylw a'u datrys.

Nod y Rheoleiddiwr Pensiynau yw amddiffyn buddion aelodau cynllun pensiwn, lleihau galwadau ar y Gronfa Diogelu Pensiynau a hyrwyddo gweinyddiaeth dda o gynlluniau pensiwn sy'n seiliedig ar waith. Felly, mae'r canlynol yn elfennau pwysig y gall y Rheoleiddiwr Pensiynau eu hystyried o arwyddocâd perthnasol:

- Mae'r arian cywir yn cael ei dalu i'r Cynllun ar yr amser cywir;
- Mae asedau'n cael eu diogelu'n briodol;
- Mae taliadau o'r Cynllun yn gyfreithlon, yn gywir ac yn cael eu talu ar yr amser cywir i'r person(au) cywir;
- Mae Rheolwr y Cynllun yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol cyllido'r Cynllun;
- Mae Rheolwr y Cynllun yn ystyried ei bolisïau buddsoddi yn briodol ac yn buddsoddi yn unol â nhw;
- Mae'r Cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol yn unol â rheoliadau'r Cynllun;

- Mae cofnodion priodol yn cael eu cadw ac maent yn gywir;
- Mae aelodau'r Cynllun yn derbyn gwybodaeth gywir, glir a diduedd heb oedi.

Ni fydd y Rheoleiddiwr Pensiynau fel arfer yn ystyried bod toriad yn berthnasol os yw Rheolwr y Cynllun wedi cymryd camau prydlon ac effeithiol i ymchwilio i doriad a'i ddatrys a rhoi'r weithdrefn angenrheidiol ar waith i sicrhau na fydd toriad o'r fath yn digwydd eto.

Fodd bynnag, bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn bryderus lle mae Rheolwr y Cynllun wedi methu â gweithredu'n brydlon ac yn effeithiol i nodi, datrys ac unioni achosion y toriad. Os na chymerwyd y camau cywirol priodol, mae'n debygol y bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn ystyried bod yr effaith yn berthnasol.

Goblygiadau ehangach toriad yw pryder y Rheoleiddiwr Pensiynau lle bydd y ffaith bod y toriad wedi digwydd yn y lle cyntaf yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd nifer y toriadau yn y dyfodol yn codi oherwydd nad oes gan y Rheolwr Cynllun y sgiliau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen i gyflawni gofynion eu rôl.

Mae fframwaith goleuadau traffig, fel y'i darperir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau, wedi'i sefydlu fel adnodd i adroddwyr gyfeirio ato ac mae'n ystyried a oes gan dorri'r gyfraith arwyddocâd perthnasol ac felly y dylid eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Dylai'r ddogfen fframwaith hon gael ei defnyddio gan bob adroddwr a'i diweddarau'n barhaus wrth i doriadau i'r gyfraith gael eu nodi. Mae'n darparu canlyniadau ymchwiliad posibl ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddwr ystyried cynnwys yr adrannau coch, ambr a gwyrdd ar gyfer yr achos, yr effaith, yr adwaith a'r goblygiadau ehangach ar gyfer y toriad sy'n cael ei ystyried. Bydd y ddogfen hon ar gael i bob person sy'n gyfrifol am adrodd am dorri'r gyfraith fel rhan o gyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau. Bydd toriad yn y categori coch ac felly rhaid ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau bob amser, oherwydd bod un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

Bydd toriad yn y categori **coch** ac felly rhaid ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau bob amser, oherwydd bod un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

- fe'i hachoswyd gan anonestrwydd, esgeulustod, ymddygiad di-hid, llywodraethu cynllun gwael, rheolaethau aneffeithiol yn arwain at weinyddiaeth ddiffygiol, neu arferion gwneud penderfyniadau araf neu amhriodol, cyngor gwael, neu dorri'r gyfraith yn fwriadol
- mae ei effaith yn sylweddol
- mae camau annigonol yn cael eu cymryd i unioni pethau
- mae ganddo oblygiadau ehangach

Bydd toriad yn y categori **gwyrdd**, ac ni fydd angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ond dylid ei gofnodi, oherwydd bod un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

- Ni chafodd ei achosi gan anonestrwydd, llywodraethu cynllun gwael, cyngor gwael neu drwy dorri'r gyfraith yn fwriadol;
- NID yw ei effaith yn sylweddol;
- Mae camau priodol yn cael eu cymryd i unioni pethau;
- NID oes ganddo oblygiadau ehangach.

Nid yw toriadau ambr yn disgyn yn amlwg i'r dosbarthiad coch na gwyrdd.

Bydd y penderfyniad i adrodd ai peidio yn gofyn am farn gytbwys yn seiliedig ar achos, effaith a goblygiadau ehangach y toriad.

Gall toriadau blaenorol a chamau lliniaru fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw toriad ambr o arwyddocâd perthnasol, gan y gall y rhain ddangos nad oes gan y corff llywodraethu ddigon o oruchwyliaeth neu reolaethau.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch arwyddocâd perthnasol y mater, dylech gyflwyno adroddiad am dorri'r gyfraith i ni.

Fframwaith Goleuadau Traffig ar gyfer penderfynu a ddylid adrodd ai peidio

Eglur – Toriad Coch

Adrodd i'r Rheoleiddiwr a chofnodi

Lle mae achos, effaith, adwaith a goblygiadau ehangach toriad, pan ystyrir hwy gyda'i gilydd, yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol:

Rhaid adrodd y rhain i'r Rheoleiddiwr Pensiynau

Aneglur – Toriad Ambr

Cymhwyso egwyddorion y cod a cheisio cymorth os oes angen

Lle mae achos, effaith, adwaith a goblygiadau ehangach toriad, pan ystyrir hwy gyda'i gilydd, yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol. Gallent gynnwys sawl methiant gweinyddol sydd, efallai ddim yn arwyddocaol ynddynt eu hunain, ond ag arwyddocâd cronol oherwydd nad oes camau wedi'u cymryd i unioni pethau. Bydd angen i chi arfer eich barn eich hun i benderfynu a yw'r toriad yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol ac a ddylid ei adrodd ai peidio.

Aneglur – Toriad Gwyrdd

Cofnodi ond peidio ag adrodd

Lle nad yw achos, effaith, adwaith a goblygiadau ehangach toriad, pan ystyrir hwy gyda'i gilydd, yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol. Dylid cofnodi'r rhain ond nid oes angen eu hadrodd.

Dylid **cofnodi** pob toriad, hyd yn oed os nad ydynt yn sylweddol arwyddocaol ac adroddadwy i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Wrth ddefnyddio'r fframwaith goleuadau traffig, dylai unigolion ystyried cynnwys yr adrannau coch, ambr a gwyrdd ar gyfer yr achos, yr effaith, yr adwaith a'r goblygiadau ehangach ar gyfer y toriad, cyn ystyried y pedwar gyda'i gilydd.

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi darparu rhai enghreifftiau defnyddiol o'r fframwaith hwn yn y ddolen ganlynol:

<https://www.thepensionsregulator.gov.uk/en/document-library/scheme-management-detailed-guidance/communications-and-reporting-detailed-guidance/complying-with-the-duty-to-report-breaches-of-the-law>